# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb Carco y Castell**

**Ysgol y Castell**
**Heol y Cilgant**
**Caerffili**
**CF83 1WH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Cofnodwch y Dyddiad â Llaw**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gofal ar gyfer 50 o blant. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys clwb brecwast, sesiynau gofal cofleidiol yn ystod y bore, clwb ar ôl yr ysgol a chlwb gwyliau. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o adeilad symudol a neuadd yr ysgol ar dir Ysgol y Castell yng Nghaerffili. Mae'r cwmni wedi penodi unigolyn cyfrifol i weithredu ar ei ran, ac mae pedwar person â gofal sy'n briodol gymwys a phrofiadol wedi'u henwebu i redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Dyma wasanaeth cyfrwng Cymraeg a chynhaliwyd yr arolygiad drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae’r canlyniadau ar gyfer y plant yn dda mewn perthynas â’u llesiant. Mae ganddynt amrediad digonol o gyfleoedd chwarae, maent yn meithrin perthnasau cryf â'u cyfoedion ac maent yn datblygu sgiliau annibyniaeth priodol. Mae’r arferion gofal yn ymatebol ac mae'r staff yn rheoli rhyngweithiadau mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r amgylchedd yn foddhaol ac mae'n darparu digon o le gydag amrediad o adnoddau ar gael. Mae gwasanaeth yn cael ei reoli’n effeithiol mewn rhai meysydd, ond mae rhai problemau sydd angen sylw er mwyn sicrhau bod y gofynion rheoleiddiol yn cael eu bodloni.

**2. Gwelliannau**

Ers yr arolygiad diwethaf mae'r unigolyn cyfrifol wedi mynd i'r afael â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd o ran peidio â gweithredu yn unol â'r datganiad o ddiben, Rheoliad 31 (1) a pheryglon yn yr amgylchedd, Rheoliad 25 (a)(c). Hefyd, mae rhai o'r argymhellion a wnaed gan AGC wedi'u rhoi ar waith, gan gynnwys arddangos pwy sy'n gweithio yn y gwasanaeth, mae cotiau'r plant bellach yn cael eu storio yn yr ystafell gotiau ac mae systemau cyfathrebu gwell gyda'r rhieni.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Yn yr arolygiad hwn nid oedd y darparwr yn cydymffurfio â'r rheoliadau o ran peryglon a diogelwch oherwydd i ni nodi risgiau i blant. Fodd bynnag, aeth yr unigolyn cyfrifol i'r afael â hyn ar unwaith ac nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio y tro hwn. Hefyd nid oedd y darparwr yn cydymffurfio o ran goruchwylio ac arfarnu, a gwnaethom nodi nad oedd y staff wedi derbyn goruchwyliaeth briodol. Fodd bynnag, nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio ynghylch y mater hwn am na wnaethom nodi  effaith sylweddol ar y plant na risg sylweddol iddynt o ganlyniad i'r staff beidio â derbyn goruchwyliaeth. Gwnaethom hefyd rai argymhellion arferion da mewn perthynas â'r amgylchedd, a themâu arweinyddiaeth a rheolaeth, y rhoddir crynodeb ohonynt ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Ar y cyfan, mae’r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y gwasanaeth.  Maen nhw'n gallu gwneud dewisiadau ynghylch eu chwarae gan fod nifer digonol o adnoddau. Gwrandewir ar geisiadau'r plant ac ymatebir iddynt, ac mae cyfleoedd iddynt fod yn annibynnol a datblygu eu sgiliau hunangymorth.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae'r plant yn gallu siarad yn agored a chyfathrebu'n hyderus. Maen nhw'n gallu dewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt a dewis eu hadnoddau yn rhydd. Yn ystod ein hymweliadau arolygu roedd y plant yn hapus i fynd at y staff ar gyfer adnoddau neu eitemau byrbryd gwahanol ac roedd eu ceisiadau yn cael eu trin yn brydlon. Roedd un plentyn eisiau crempog a gwnaeth y staff ddarparu'r rhain yn gyflym. Dywedodd y person â gofal wrthym fod y cynllunio yn hyblyg ar gyfer y clwb ar ôl yr ysgol, gan ddibynnu ar geisiadau'r plant. Gwnaethom arsylwi ar y plant a'r staff yn sgwrsio'n gyfeillgar ac roedd hi'n glir y gwrandewir ar y plant a bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried.

Mae'r plant yn cael y cyfle i fynegi eu safbwyntiau, ymgynghorir â nhw a rhoddir rôl weithredol iddynt o ran eu chwarae a'u dysgu.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae’r plant yn fodlon eu byd ac wedi ymgartrefu yn y gwasanaeth. Ar hyn o bryd mae'r holl blant sy'n mynychu yn ddisgyblion yn yr ysgol gynradd felly mae'r hyn sydd o’u cwmpas yn gyfarwydd iawn iddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r tîm staff hefyd wedi'u cyflogi yn yr ysgol gan ddarparu dilyniant gofal. Ceir awyrgylch prysur ac mae'r plant yn mwynhau eu hamser yn chwarae gydag eraill. Gwelsom y plant yn chwerthin ac yn rhedeg o gwmpas y tu allan. Clywsom y staff yn cydnabod ymdrechion y plant ac yn canmol eu cyflawniadau. Er enghraifft, gwnaeth un aelod o staff ymuno â phlentyn a oedd yn adeiladu tŵr mawr, a dywedodd hi "Da iawn, mae hwn yn grêt”.

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu. Mae hyn yn hwb i'w hyder.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Gwnaethom arsylwi ar grwpiau oedran gwahanol o blant yn ystod yr arolygiad a gwelsom fod rhyngweithiadau hyfryd rhwng y plant a oedd yn cymryd rhan yn hapus mewn gweithgareddau grŵp a gweithgareddau pâr. Roedd y plant yn siarad yn garedig â'i gilydd ac yn rhannu adnoddau. Roedd y plant yn hapus i siarad â ni, ac roedd yn ymddangos fel pe baent yn deall y rheolau a'r ymddygiad a ddisgwylid ohonynt pan oeddent yn mynychu'r clwb. Yn ystod y cyfnod gofal cofleidiol, roedd amser byrbryd yn ddigwyddiad arbennig o gymdeithasol gyda'r plant yn eistedd yn neis gyda'i gilydd ac yn sgwrsio â'i gilydd a chyda'r staff. Roedd cyfeillgarwch cefnogol

rhwng unigolion yn amlwg ac roedd y plant iau yn hyderus i ofyn am gymorth pan oedd angen.

Mae'r plant yn datblygu amrywiaeth o sgiliau cymdeithasol da ac maent yn dysgu sut y mae eu hymddygiad yn gallu effeithio ar eraill.

**1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?**

Mae'r plant yn dangos mwynhad o ran y gweithgareddau chwarae sydd ar gael iddynt sy'n briodol ar gyfer eu hoedran ac yn cynnal eu diddordeb. Gallant hefyd ymlacio ar ôl eu diwrnod ysgol drwy ddarllen neu gymryd eu tro i chwarae ar y cyfrifiadur. Roedd yr amrywiaeth o chwarae yn llenwi amser y plant mewn ffordd gynhyrchiol ac roedd yn cynnwys gwau, chwarae gyda thywod, celf a chrefft a chwarae awyr agored. Dywedodd y plant y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau mynychu'r gwasanaeth a *'chwarae gyda'r teganau dinosoriaid'*. Gwelwyd bod grŵp o blant yn cael mwynhad arbennig o weithgareddau gwaith crosio gydag aelod o staff.

Mae gan blant fynediad at amrediad da o gyfleoedd chwarae sy'n briodol heriol ac o ddiddordeb iddynt.

**1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?**

Mae'r plant yn dangos hyder o ran eu sgiliau hunangymorth ac annibyniaeth. Roedd y chwarae yn hunangyfeiriedig ar y cyfan ac wedi'i ddewis yn rhydd, a oedd yn golygu bod y plant yn tueddu at y gweithgareddau roeddent yn eu mwynhau ac roeddent yn gwneud hynny gyda'r lleiafswm o gymorth oddi wrth y staff. Mae gan y plant berthynas gyson â'u gofalwyr a'u ffrindiau, sy'n eu helpu i fagu hyder a goresgyn heriau. Gwelsom blant yn chwarae am gyfnodau da o amser o dan do ac yn yr awyr agored. Roedd y plant yn hyderus i ddefnyddio cyfleusterau'r toiled heb gymorth ac roeddent yn golchi eu dwylo ar yr adegau priodol. Yn ystod amseroedd byrbryd yn y clwb ar ôl yr ysgol, gallai'r plant ddewis beth roeddent am ei fwyta, roeddent yn eu gweini eu hunain ac yn arllwys eu diodydd eu hunain.

Mae'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth priodol yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae gweithdrefnau priodol ar waith i hybu iechyd a llesiant y plant. Mae'r staff yn brofiadol ac wedi'u hyfforddi'n dda i gyflawni eu rolau yn effeithiol.

### Ein canfyddiadau

#### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw’r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae gan y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cefnogi ac yn hybu iechyd a llesiant. Mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant ac mae polisi diogelu sy'n cynnwys y Ddyletswydd Atal sy'n ei wneud yn ofynnol i wasanaethau amddiffyn plant rhag eithafiaeth a radicaleiddio. Mae system ar waith i gofnodi damweiniau a digwyddiadau, ond gwnaethom nodi nad oedd yr holl gofnodion y gwelsom wedi'u llofnodi gan rieni. Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ac mae polisi meddyginiaeth ar waith.

Rhoddwyd dŵr yfed i'r plant a gallent helpu eu hunain iddo drwy gydol eu hamser yn y gwasanaeth ac roedd dewis o fyrbrydau iach ar gael yn unol â pholisi bwyta'n iach y gwasanaeth.

Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ac maen nhw'n dilyn y polisïau a’r gweithdrefnau sydd ar waith.

#### 2.2 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae’r staff yn gweithio yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth. Gwelsom staff yn rhyngweithio'n gyson ac yn barchus â'r plant mewn modd tawel a thyner ac roeddent yn fodelau rôl o ran ymddygiad cadarnhaol. Clywsom staff yn defnyddio lleisiau tawel ac iaith gyfeillgar a oedd yn helpu i feithrin perthnasau ymddiriedus a llwyddiannus â'r plant.

Mae'r staff yn ymateb mewn modd cyson, sy'n helpu'r plant i ddeall pa ymddygiad sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol.

#### 2.3 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r tîm staff yn darparu gofal ymatebol sy'n diwallu anghenion y plant. Gwelsom fod y cymarebau staff i blant yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae system gweithiwr allweddol ar waith ar gyfer y plant sy'n derbyn gofal cofleidiol, a gwelsom gofnodion datblygu priodol ar gyfer y plant hynny. Roedd y plant yn gallu gwneud eu dewisiadau eu hunain ac fe’u gwelsom yn symud yn rhydd rhwng yr adnoddau. Ar sawl achlysur roedd y staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r plant. Gwelsom y plant yn siarad â'r staff am eu diddordebau ac am eu bywyd ysgol ac roedd y staff yn ymwybodol o hoffterau a diddordebau'r plant.

Mae'r plant yn elwa ar dîm o staff sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd i ddarparu cyfleoedd chwarae a dysgu ar gyfer y plant i gyd.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae’r gwasanaeth wedi'i leoli ar diroedd Ysgol y Castell yng Nghaerffili. Defnyddir ystafell ddosbarth symudol ar gyfer y gwasanaethau gofal cofleidiol a'r clwb ar ôl yr ysgol, a defnyddir neuadd yr ysgol ar gyfer y gwasanaeth clwb brecwast. Gwnaethom nodi peryglon i blant yn yr adeilad symudol, fodd bynnag aeth y darparwr ati ar unwaith i unioni hyn.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae gan yr arweinwyr rai systemau effeithiol ar waith i reoli'r amgylchedd a sicrhau diogelwch y plant. Roedd y plant i gyd yng nghwmni aelod o staff yr ysgol pan oeddent yn gadael yr ysgol i fynychu'r clwb ar ôl yr ysgol. Roedd hynny'n wir hefyd pan oeddent yn gadael y clwb brecwast yn y bore. . Mae angen i ymwelwyr i'r gwasanaeth lofnodi'r llyfr i ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Roedd y cofrestri ar gyfer presenoldeb y plant wedi'u cwblhau'n briodol. Gwelsom fod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Roedd y rhieni neu warcheidwaid yn llofnodi'r gofrestr pan oeddent yn gadael gyda'u plant ond gwnaethom nodi pryderon diogelwch o ran y system a oedd ar waith ar gyfer y clwb ar ôl yr ysgol. Gwelsom ar adegau fod drws y fynedfa heb ei oruchwylio ac yn cael ei adael ar agor, ac felly roedd y plant yn gallu gadael yr adeilad. Roedd y plant hefyd yn gallu cael mynediad at y gegin heb gael eu goruchwylio. Gwnaethom drafod y materion hyn gyda'r darparwr, a roddodd fesurau ar waith ar unwaith i leihau'r risgiau i blant.

Mae gan yr arweinwyr systemau ar waith i sicrhau diogelwch yr amgylchedd ond mae'n rhaid iddynt gymryd camau gweithredu i gynnal hyn.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Ar y cyfan, mae'r gofod sydd ar gael yn addas ar gyfer chwarae a dysgu'r plant. Mae ardal awyr agored o faint da sy'n llawn adnoddau da sy'n cael ei defnyddio bob dydd. Gwnaethom gynnal arolygiad gweledol o'r gofod o dan do a chanfod ei fod yn llachar ac yn addas i blant. Yn yr ystafell ddosbarth symudol, nid oes angen i blant adael yr ystafell chwarae er mwyn cael mynediad i'r cyfleusterau toiled ac mae hyn yn annog eu hannibyniaeth, fodd bynnag mae'r toiledau wedi'u dylunio ar gyfer plant ifanc ac nid yw uchder y drysau yn cynnal preifatrwydd y plant hŷn. Gwnaethom hefyd nodi bod arogl annymunol o'r draen yn dod o ardal y toiled. Mae'r holl argymhellion a wnaed yn yr arolygiad blaenorol o ran y cyfleusterau toiled yn parhau heb eu datrys o hyd, fodd bynnag, dywedodd y person â gofal wrthym fod gwaith wedi'i gynllunio i addasu'r cyfleusterau.

Mae angen camau gweithredu i sicrhau bod y cyfleusterau yn addas ar gyfer oedrannau’r holl blant sy'n mynychu'r gwasanaeth.

**3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?**

Mae amrywiaeth o deganau ac offer priodol i'r plant eu defnyddio. Mae deunyddiau crefftau, tywod a dŵr, gwau, posau jig-so, teganau byd bach, ardal lyfrau fach ac ardal wedi'i chlustnodi ar gyfer chwarae anniben. Dywedodd y plant y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus gyda'r adnoddau sydd ar gael. Roedd yr adnoddau y gwnaethom eu harchwilio mewn cyflwr da ac roeddent yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n mynychu. Tu allan gwelsom fod y plant yn elwa ar offer chwarae mawr fel cegin fwd a ffrâm ddringo.

Mae'r plant yn elwa ar ddetholiad priodol o adnoddau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Tra bo nifer o agweddau ar y gwasanaeth yn cael eu rhedeg yn briodol mae meysydd sydd angen sylw er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Rheoliadau.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae arweinyddiaeth mewn rhai meysydd yn effeithiol, fodd bynnag mae angen sylw i sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni ei holl ofynion Rheoleiddiol. Mae datganiad o ddiben manwl sy’n darparu gwybodaeth i rieni i’w cynorthwyo i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch addasrwydd y gwasanaeth ar gyfer eu plentyn. Gwelsom fod contractau rhieni wedi'u cwblhau cyn i'r plant ddechrau mynychu a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol ynglŷn â'r plentyn a manylion cyswllt allweddol, fodd bynnag nid oedd y contractau yn cynnwys gwybodaeth am grefydd a rhywedd y plant. Roedd amseroedd presenoldeb y plant a'r staff yn cael eu cofnodi. Roedd polisïau a gweithdrefnau allweddol ar waith ar gyfer y gwasanaeth, fodd bynnag nid oedd rhai ohonynt yn nodi pryd y cawsant eu hadolygu ddiwethaf. Mae’r gwasanaeth yn darparu'r *‘cynnig gweithredol’* o ran yr iaith Gymraeg.

Mae polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith, fodd bynnag mae'n rhaid i'r arweinyddiaeth sicrhau bod yr holl ofynion deddfwriaethol yn cael eu bodloni.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae tystiolaeth o gynllunio ar gyfer gwella a phrosesau sicrhau ansawdd. Roedd y datganiad Hunanasesu Gwasanaeth blynyddol a'r adroddiad ansawdd gofal wedi'u llunio a'u hanfon at AGC. Roedd yr adroddiad yn nodi iddo gael ei lunio gan ddefnyddio safbwyntiau'r plant, y rhieni a'r staff. Roedd polisi cwynion ar waith pe bai rhieni eisiau codi mater, fodd bynnag nid oedd unrhyw system ar waith pe bai plentyn yn dymuno gwneud cwyn.

Mae arweinwyr yn cwblhau gwaith gwerthuso a chynllunio ar gyfer y gwasanaeth.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn rheoli rhai agweddau ar y gwasanaeth yn dda o ran recriwtio a hyfforddi staff, ond mae rheoli meysydd eraill yn anghyson. Gwelsom fod arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal, fodd bynnag canfuom nad oedd y staff yn derbyn goruchwyliaeth unigol. Cytunodd y darparwr i sefydlu sesiynau goruchwylio ffurfiol, rheolaidd i gyd-fynd â'r system arfarnu a oedd eisoes ar waith. Roedd y ffeiliau staff a welsom yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd staff i drafod cynllunio, adnoddau a hyfforddiant. Roedd holl hyfforddiant gorfodol y staff yn gyfredol ac roedd sesiynau diweddaru'n cael eu trefnu fel y bo angen.

Mae angen i'r arweinwyr sicrhau bod system effeithiol ar waith o ran goruchwyliaeth ffurfiol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Ceir partneriaethau priodol gyda'r rhieni a'r plant. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod ganddynt berthynas weithio dda â’r ysgol sydd ar y safle. Roedd gwybodaeth i rieni'n cael ei harddangos yng nghyntedd y fynedfa gan gynnwys cynllunio gweithgareddau, ffotograffau a chymwysterau staff. Dywedodd un o'r personau â gofal wrthym fod cynlluniau ar gyfer cyflwyno cylchlythyrau chwarterol i rieni yn darparu gwybodaeth am y gwasanaeth.

Mae partneriaethau gyda rhieni yn cael eu datblygu er mwyn amlhau'r manteision i blant.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

- Yn ystod yr arolygiad a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2017 gwnaethom nodi dau faes lle nad oedd y darparwr yn bodloni eu cyfrifoldebau cyfreithiol a chyflwynwyd hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio. Y rhain oedd Rheoliad 25 (a) (c) peryglon a diogelwch a Rheoliad 31 (1) datganiad o ddiben. Yn ystod yr arolygiad hwn, canfuom fod y darparwr wedi cymryd camau gweithredu er mwyn cydymffurfio o ran y materion a nodwyd.

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom drafod yr argymhellion arfer da canlynol â'r unigolyn cyfrifol a'r personau â gofal:

- dylid dyddio’r holl bolisïau a gweithdrefnau i ddangos y dyddiad adolygu diwethaf
- dylid sicrhau bod y rhieni'n llofnodi'r cofnodion damweiniau a digwyddiadau
- dylid rhoi polisi cwynion ar waith ar gyfer plant dros wyth oed
- dylid diweddaru contractau'r plant er mwyn cynnwys gwybodaeth am grefydd a rhywedd y plant
- dylid parhau gyda chynlluniau i addasu cyfleusterau toiled yn yr adeilad symudol er mwyn cynnal preifatrwydd y plant, diwallu anghenion y plant hŷn a chael gwared ar yr arogl o'r draen.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad llawn oedd hwn a gynhaliwyd yn dilyn pryder a dderbyniwyd gan AGC ac i brofi'r materion o ddiffyg cydymffurfio a oedd yn weddill ers yr arolygiad diwethaf;

- Gwnaeth un arolygydd ddau ymweliad â'r gwasanaeth dros ddeuddydd, ac roedd y cyntaf yn ymweliad dirybudd. Gwnaethom dreulio tua chwe awr yn y gwasanaeth;

  - gwnaethom arsylwi ar arferion gofal
  - gwnaethom ystyried yr wybodaeth a oedd ar gael i AGC, gan gynnwys datganiad hunanasesu'r gwasanaeth
  - gwnaethom siarad â'r plant a'r staff
  - gwnaethom wiriad gweledol o'r adeilad
  - gwnaethom edrych ar amrywiaeth o ddogfennau. Gwnaethom ganolbwyntio ar ffeiliau'r staff, y polisi diogelu, y polisi rheoli ymddygiad ac amserlenni staff.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd plant**<br>**Gofal dydd llawn** |
| **Unigolyn cyfrifol** | **Tracy Reeves** |
| **Person â gofal** | **Kelly Price**<br>**Sara Rock**<br>**Maria Lees**<br>**Natalie Richards** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **50** |
| **Ystod oedran y plant** | **3 – 11 oed** |
| **Oriau agor** | **8am – 9am clwb brecwast**<br>**9am – 12.45pm gofal cofleidiol**<br>**3.30pm – 5.45pm gofal ar ôl yr ysgol**<br>**8.30am – 5.30pm clwb gwyliau yn ôl y galw** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **12 Rhagfyr 2017** |
| **Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn** | **23 Ebrill 2018 a 26 Ebrill 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Ydy. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'cynnig gweithredol' o ran yr iaith Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |